

Canlyniad prawf alergedd i benisilin: Positif

Yn ddiweddar cawsoch brawf am alergedd i benisilin.
Cawsoch adwaith yn ystod y prawf, sy'n cadarnhau:

Bod gennych alergedd i benisilin

Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae hyn yn golygu **na** ddylech gymryd gwrthfotigau sy'n cynnwys penisilin. Mae enghreifftiau o wrthfotigau i'w hosgoi oherwydd eu bod yn cynnwys penisilin, yn cynnwys: phenoxymethylpenicillin (penicillin V), amoxicillin, flucloxacillin a co-amoxiclav (Augmentin).

Beth sy'n digwydd nawr?

Byddwn yn rhoi cerdyn i chi ei gadw a fydd yn rhoi gwybod i staff gofal iechyd bod gennych alergedd i benisilin. Bydd y cerdyn hwn yn rhestru'r holl feddyginiaethau na ddylech eu cymryd.

Cofiwch ofyn i unrhyw staff gofal iechyd a all roi meddyginiaethau ar bresgripsiwn i chi, i wirio a oes gan feddyginiaeth benisilin ynddi.

Byddwn yn anfon llythyr at eich meddyg teulu i ddweud wrthynt am ganlyniad y prawf fel y gallant ddiweddarau eich cofnod meddygol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y math o adwaith a gawsoch, gofynnwch i'n tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch i ddweud mwy wrthynt am yr hyn a ddigwyddodd.